

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn gosod arwynebeddau bloc hyblyg.

Mae'r safon hon yn un o gyfres o chwech wedi eu hanelu at y rheiny sydd yn gosod mathau amrywiol o arwynebeddau llawr caled a ddefnyddir yn y diwydiannau tirlunio.

Mae'r safon hon yn targedu gweithredwyr sydd yn gweithio o dan oruchwyliaeth gyfyngedig ac yn canolbwyntio ar y sgiliau sy'n ofynnol i ddeall y strwythur ac i osod arwynebeddau caled tra'n gweithio yn unol â manylebau.

Disgwylir i chi ddeall effaith y gosodiad ar yr amgylchedd uniongyrchol, ac effaith yr amgylchedd ar y strwythur.

## Meini prawf perfformiad

### *Rhaid i chi allu:*

1. asesu'r risg sydd yn gysylltiedig â'r safle a'r gwaith arfaethedig
2. dewis, paratoi a defnyddio offer a chyfarpar ar gyfer gosod arwynebeddau bloc hyblyg, yn cynnwys offer amddiffynnol personol (PPE) ac offer amddiffynnol anadlol (RPE) yn ddiogel ac yn gywir
3. cadw niwed, gwastraff diangen, effaith annymunol ar yr amgylchedd a llygredd mor isel â phosibl
4. gosod ar gyfer llinell a lefel
5. adeiladu cwrs ymyl ataliol addas ar linellau syth, cylchrannau rheolaidd a chromlinau afreolaidd
6. gosod gwely o dywod garw/graeon, wedi ei lefelu i'r dyfnder a'r lefel gywir ar gyfer arwynebeddau bloc hyblyg
7. gosod arwynebeddau bloc hyblyg â llaw i batrwm addas
8. gwirio blociau hyblyg wedi eu gosod o ran cyfluniad
9. torri blociau hyblyg i'r safon ofynnol
10. cywasgu blociau hyblyg
11. sicrhau bod arwynebeddau blociau hyblyg sydd wedi eu gosod yn cydymffurfio, a datrys unrhyw broblemau
12. llenwi'r cymalau ac ail-gywasgu
13. cadw'r safle mewn cyflwr glân a thaclus tra'n gosod arwynebeddau bloc hyblyg
14. glanhau, cynnal a chadw a storio offer a chyfarpar yn brydlon ac yn ddiogel ar ôl gosod arwynebeddau bloc hyblyg
15. diogelu arwynebeddau bloc hyblyg yn gywir rhag y tywydd a defnydd tan eu bod mewn cyflwr addas
16. gadael y safle yn ddiogel, yn daclus ac yn addas ar gyfer y defnydd a fwriadwyd
17. cynnal perthynas waith gyda phawb sydd yn gysylltiedig â gosod arwynebeddau bloc hyblyg, neu wedi eu heffeithio ganddo
18. parhau i gyfathrebu gyda phawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
19. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y tywydd sydd yn briodol ar gyfer gosod arwynebeddau bloc hyblyg
2. sut i gynnal asesiad risg ar gyfer gosod arwynebeddau bloc hyblyg a phenderfynu ar ddulliau gwaith diogel
3. sut i ddehongli manylebau gosod arwynebeddau bloc hyblyg
4. sut i fesur er mwyn sicrhau bod y gwaith o fewn goddefiannau
5. sut mae disgynfeydd, llinellau a lefelau yn cael eu pennu a'u nodi
6. sut i ddewis a pharatoi'r offer a'r cyfarpar cywir ar gyfer y dasg, yn cynnwys offer amddiffynnol personol (PPE) ac offer amddiffynnol anadlol (RPE)
7. sut i ddefnyddio, cynnal, glanhau a storio'r offer a'r cyfarpar angenrheidiol yn ddiogel ac yn gywir
8. defnydd o offer torri yn cynnwys holltwr, llif ac offer tocio
9. pwysigrwydd atal llwch ac offer amddiffynnol anadlol (RPE)
10. wrth ddefnyddio cylchlif, pwysigrwydd ataliadau ymyl
11. sut i gyfrifo faint o ddeunyddiau palmant sydd eu hangen
12. sut dylid storio deunydd palmant ar y safle, sut maent yn cael eu dosbarthu i'r man gosod, a sut maent yn cael eu lleoli ar gyfer y gweithredwr sy'n eu gosod
13. yr ystod o flociau sydd ar gael, yn cynnwys systemau bloc hydraidd, a'u cymwysiadau addas
14. yr ystod o batrymau bloc a ddefnyddir yn gyffredin ar y safle, eu cryfder a'u gwendidau perthnasol, a sut cânt eu sefydlu
15. pwysigrwydd cymysgu a hapddewis blociau o dri pheccyn neu fwy cyn eu gosod
16. pwysigrwydd defnyddio'r deunydd haenu cywir a sefydlu dyfnderau a chywasgiad digonol
17. sut mae ardaloedd yn cael eu gwirio'n barhaus o ran cydymffurfio â llinell, lefel, lled cymal a chymhwysedd bloc yn ystod y broses osod
18. sut mae torri i mewn yn cael ei gyflawni gan ddilyn egwyddorion isafswm maint blociau a thechnegau torri mewnol
19. pwysigrwydd defnyddio'r deunydd uniadu cywir a'i rôl ym mherfformiad yr arwynebedd wedi ei gwblhau
20. technegau a ddefnyddir ar gyfer growtio sych a gwlyb
21. maint, mas a'r math o offer cywasgu sydd yn addas ar gyfer y math o flociau sy'n cael eu gosod

22. sut caiff offer cywasgu ei ddefnyddio, a'r defnydd o unrhyw atodiadau angenrheidiol ac adnewyddu blociau diffygiol
23. sut mae arwynebeddau'n cael eu gwirio'n barhaus o ran cydymffurfio â llinell, lefel, lled cymal a chymhwysedd deunyddiau yn ystod y broses osod
24. pwysigrwydd gwiriadau cydymffurfio terfynol
25. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, a sut dylid gwneud hyn
26. pwysigrwydd dilyn arfer gorau amgylcheddol ac ecolegol i leihau effaith eich gwaith ar yr amgylchedd
27. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol perthnasol

## Cwmpas/Ystod

A. dewis a defnyddio'r mathau canlynol o offer a chyfarpar wrth osod arwynebeddau bloc hyblyg:

1. offer llaw
2. cywasgwyr platiau sy'n dirgrynu
3. holltwyr gilotîn
4. cylchlifau

B. gwneud y tasgau canlynol wrth osod arwynebeddau bloc hyblyg:

1. gosod blociau
2. torri i mewn
3. cywasgu
4. gwiriadau cydymffurfio
5. uniadu
6. codi ac atgyweirio

C. defnyddio'r mathau canlynol o ddeunyddiau:

1. palmentydd concriid confensiynol
2. palmentydd concriid hydraidid
3. palmentydd clai confensiynol
4. palmentydd clai hydraidid

D. gweithio gyda'r patrymau bloc canlynol:

1. bond ymestyn/parhaus/toredig
2. 90° saethben
3. 45° saethben
4. gwead basged

LANH40

Gosod arwynebeddau bloc hyblyg



---

## Geirfa